## GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A40 A'R A449 (FFORDD OSGOI RHAGLAN, SIR FYNWY) (TERFYNAU CYFLYMDER 50 MYA A 40 MYA DROS DRO) 202-

## DATGANIAD O'R RHESYMAU

Pwrpas y Gorchymyn arfaethedig yw cyflwyno terfyn cyflymder 50 mya ar ddarnau o'r A40 Ffordd Osgoi Rhaglan a chefnffordd yr A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan a therfyn 40 mya ar ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A40.

Mae'r cyfyngiad cyflymder 50 mya arfaethedig yn deillio o astudiaeth ddiogelwch a gwblhawyd yn 2023 ar ran Asiant Cefnffyrdd De Cymru/Llywodraeth Cymru i ymchwilio i faterion diogelwch priffyrdd, ac ymyriadau posibl i fynd i'r afael â'r rhain, wrth gyffyrdd â blaenoriaeth yr A40/Monmouth Road/Groesenon Road ger Cyfnewidfa Rhaglan yr A40/A449. Nodwyd sawl mesur lliniaru posibl, ond rhoddwyd pwyslais ar atebion y gellid eu gweithredu'n gyflym. Un o'r mesurau hynny oedd gweithredu terfyn cyflymder 50 mya dros dro ar hyd Ffordd Osgoi Rhaglan. Yn dilyn adolygiad o'r terfyn cyflymder 50 mya dros dro, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y dylid gweithredu terfyn cyflymder 50 mya parhaol i wella diogelwch ar y ffyrdd i bob defnyddiwr, yn unol ag argymhellion yr astudiaeth. Bydd y Gorchymyn Dros Dro yn cael ei ddirymu.

Mae angen y terfyn cyflymder 40 mya arfaethedig er mwyn cysylltu â'r terfyn cyflymder 40 mya presennol ar y ffordd sirol. Caiff ei gyflwyno ar ddechrau'r slipffordd i leihau blerwch arwyddion ar ddiwedd y slipffordd ac i sicrhau bod modurwyr yn ymwybodol o'r newid yn y terfyn cyflymder.

## THE A40 & A449 TRUNK ROADS (RAGLAN BYPASS, MONMOUTHSHIRE) (50 MPH AND 40 MPH SPEED LIMITS) ORDER 202-

## STATEMENT OF REASONS

The purpose of the proposed Order is to introduce a 50 mph speed limit on lengths of the A40 Raglan Bypass and the A449 trunk road at Raglan Interchange and a 40 mph limit on the A40 eastbound exit slip road.

The proposed 50 mph speed restriction is a result of a safety study completed in 2023 on behalf of the South Wales Trunk Road Agent/Welsh Government to investigate highway safety issues, and potential interventions to address these, at the A40/Monmouth Road/Groesenon Road priority junctions near the A40/A449 Raglan Interchange. Several potential mitigation measures were identified, but an emphasis was given to solutions that could be implemented quickly. One such measure was the implementation of a temporary 50 mph speed limit along Raglan Bypass. Following a review of the temporary 50 mph speed limit, the Welsh Government has determined that a permanent 50 mph speed limit should be implemented to improve road safety for all users, as per the study's recommendations. The Temporary Order will be revoked.

The proposed 40 mph speed limit is needed to tie into the existing 40 mph speed limit on the county road. It will be introduced at the start of the slip road to reduce signage clutter at the end of the slip road and to ensure that motorists are aware of the speed limit change.